Safon Uwch Ffotograffiaeth (Amser Llawn)

Bydd y cwrs hwn yn eich addysgu am ffotograffiaeth fel math o gelfyddyd fynegiannol. Byddwch yn dysgu am bwysigrwydd y ffotograff nid dim ond fel cyfrwng cofnodi ond hefyd fel ffordd o gyfathrebu. Byddwch yn cael y cyfle i gynhyrchu ffotograffau sy'n ddiddorol yn weledol, trwy archwilio prosesau ystafell dywyll a digidol. Mae'r cwrs hwn yn eithriadol o ymarferol a heriol ond mae hefyd yn ddamcaniaethol a byddwch yn cael gwersi mewn ymwybyddiaeth gyd-destunol er mwyn eich helpu i wella eich sgiliau dadansoddi. Os ydych yn berson creadigol, hunanysgogol ac annibynnol sy'n hoff o her, yna dyma'r cwrs i chi. Byddai myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau Safon Uwch eraill mewn Celfyddyd Gain a Chyfathrebu Graffig yn arbennig o addas ar gyfer y cwrs hwn.

Gwneud cais am Safon Uwch? Cliciwch 'Gwneud Cais Nawr' ar unrhyw UN o'r pynciau y mae gennych ddiddordeb ynddynt, llenwch y ffurflen gais ar-lein ac wedyn cadwch le ar gyfer Noson Wybodaeth i gyfarfod â'r tiwtoriaid a thrafod y pynciau o'ch dewis. Bydd modd i chi wedyn ddewis eich pynciau ar y noson!

Cod UCAS: EAAD03PHTS

Gofynion Mynediad

6 TGAU â Gradd C neu uwch gan gynnwys Cymraeg/Saesneg.

Rhagolygon Gyrfa

Mae llawer o fyfyrwyr sy'n astudio ffotograffiaeth yn dilyn y pwnc ar lefel AU. Mae hyn yn agor amrywiaeth o lwybrau gyrfa, megis gweithio mewn ffotograffiaeth fasnachol, ffotograffiaeth hysbysebu, ffotograffiaeth olygyddol, ffotonewyddiaduraeth neu fel artist ffotograffig.

DULL ASTUDIO
FT

LLEOLIAD
Coleg Castell-nedd - 01639 648000

HYD Y CWRS
2 years